

13/07/21

Annwyl Riant / Warcheidwad disgyblion blwyddyn 6,

Braf oedd eich cwrdd chi ar y 30ain o Fehefin, yn ogystal a chroesawi'r disgyblion i'r ysgol ar yr un diwrnod. Fel addawyd, gyda diwedd y tymor yn nesáu yn gyflym iawn ac yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog wythnos ddiwethaf, hoffwn rannu trefniadau gyda chi ar gyfer dechrau ym mis Medi.

Dyddiad	Gweithgaredd
Iau 02/09/21	HMS i staff yr ysgol – dim disgyblion
Gwener 03/09/21	Blwyddyn 7 a 12 yn unig i fynychu'r ysgol
Llun 06/09/21	Pob disgybl yn dychwelyd Bl.7-13eg

Fel y cyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ddydd Gwener diwethaf, bydd newidiadau allweddol i drefniadau ysgolion o fis Medi 2021. Rydym yn aros i dderbyn 'Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau Covid-19 Lleol' oddi wrth Llywodraeth Cymru ar gyfer manylion llawn o'r newidiadau, ond rydym yn gwybod y bydd y newidiadau canlynol yn dod i rym yn syth:

- Ni fydd rhaid i ddigybllion ddefnyddio gorchuddion wyneb yn rheolaidd mewn ystafelloedd dosbarth, ond fe fydd rhaid eu defnyddio ar y coridorau, y neuaddau a'r ffreutur ac ar gludiant ysgol.
- Ni fydd grwpiau cyswllt/swigod yn cael eu hargymell mwyach – bydd Profi, Olrhain, Diogelu (POD) yn arwain ar nodi cysylltiadau agos staff a dysgwyr sy'n profi'n bositif, yn yr un modd ag y byddent ar gyfer unrhyw broffion unigol eraill y tu allan i'r ysgol/lleoliad.
- Byddwn yn annog ein disgyblion i brofi cyn dychwelyd i'r ysgol. Ni fydd disgwyl i ddisgyblion na staff i weithredu profion LFT dros yr haf.
- Bydd amserau'r dydd yn dychwelyd i'r amserau arferol (gweler isod).

CA3 (Bl. 7-9)		CA4 a 5 (Bl. 10-13)	
Amser	Gweithgaredd	Amser	Gweithgaredd
08:00 – 08:30	Clwb brecwast ar gael	08:00 – 08:30	Clwb brecwast ar gael
08:30	Cofrestru	08:30	Cofrestru
09:00	Gwers 1	09:00	Gwers 1
09:50	Egwyl	09:50	Gwers 2
10:10	Gwers 2	10:40	Egwyl
11:00	Gwers 3	11:00	Gwers 3
11:50	Cinio	11:50	Gwers 4
12:40	Gwers 4	12:40	Cinio
13:30	Gwers 5	13:30	Gwers 5



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



14:20	Gwers 6	14:20	Gwers 6
15:10	Diwedd y diwrnod ysgol	15:10	Diwedd y diwrnod ysgol

Byddwn yn cadarnhau mesurau a threfniadau llawn Cofid gyda chi ar ddechrau'r tymor.

Rydym yn **disgwyl y bydd pob disgybl yn gwisgo'r wisg ysgol newydd ym mis Medi**. Gwych yw derbyn nifer o sylwadau hynod o bositif am ymddangosiad ein disgyblion yn y wisg newydd. Mae'r manylion ar gyfer y wisg ar gael [yn y llythyr yma](#) ac ar werth gan gwmni Bergoni. Fel y nodwyd yn y llythyr, roedd caniatâd gan ein disgyblion i wisgo'r 'hen wisg' yn ystod 12 mis y cyfnod trosglwyddo hyd at Fedi 2021. Nid yw trowsus tracwisg neu socasau (leggings) yn addas fel rhan o'r wisg ysgol. Gweler y safwe ([Gohebiaeth :: Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe](#)) am fanylion llawn y wisg ysgol, gan gynnwys ein disgwyliadau ar gyfer esgidiau ysgol ac ar gyfer tlysau yn y trwyn. Diolch i ran helaeth o'n disgyblion a'n rhieni am gefnogi ein disgwyliadau gyda'r wisg ysgol yn ddyddiol fel bod ymddangosiad ein disgyblion yn destun balchder. Disgwylir i ddisgyblion hefyd ddod ag offer dysgu eu hun at eu defnydd personol nhw.

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawi eich plentyn i Fryn Tawe ar y 3ydd o Fedi. Gobeithio y cawn flwyddyn gyda llai o darfu ar addysg ein disgyblion ble byddwn hefyd yn gallu darparu profiadau allgyrsiol cyfoethog iddynt.

Gobeithio y cewch chi gyd gyfle i ymlacio dros yr haf a ga i ddymuno gwyliau da i chi gyd.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWR
MEWN POBL**

Aur

